# HOSPIS TŶ'R EOS

CYLCHLYTHYR HYDREF 2020



# CROESO

Croeso i Gylchlythyr yr Hydref.

Bydd y cylchlythyr hwn yn eich cyrraedd tra byddwn yn dal yn y pandemig Cofid-19 heb fod neb yn gwybod pa bryd y bydd yn dod i ben. Mae'r hosbis, felly, yn wynebu'r her fwyaf er pan y'i sefydlwyd 25 o flynyddoedd yn ôl. Rhaid i 82% o'n costau cynnal gael eu sefyll drwy ein hymdrechion cynhyrchu incwm ein hunain ac mae ein dulliau codi arian traddodiadol wedi cael eu dinistrio'n llwyr er pan gyrhaeddodd Cofid-19 y DU a'r cyfnodau clo a'r mesurau cadw pellter a ddaeth yn ei sgil.

Er mis Mawrth, bu'n rhaid canslo bron pob un o'n gweithgareddau codi arian, gweithgareddau sydd bob amser yn cael eu cefnogi'n wych gan ein cymuned a'r disgwyl oedd, yn ystod blwyddyn ein pen-blwydd, y bydden nhw'n cyfrannu £250,000 tuag at y gwasanaethau rydyn ni'n ei ddarparu ar gyfer cleifion. Mae'r ffynhonnell incwm hanfodol hon wedi ei chymryd oddi arnon ni a thra rydyn ni'n chwilio am ffynonellau eraill, gan gynnwys digwyddiadau rhithiol, mae'r incwm sy'n cael ei greu'n sylweddol is na'r hyn a godwyd yn flaenorol.

Hefyd, er mis Mawrth, collwyd rhan fawr o'n hincwm oherwydd bod gofyn inni gau ein 11 o siopau a dau gaffi. Mae ein siopau elusen wedi dechrau ailagor a'r gobaith yw y byddan nhw i gyd ar agor erbyn diwedd Hydref ac y bydd yr holl drefniadau cadw pellter cymdeithasol angenrheidiol yn cael eu gweithredu. Bydd yn cymryd cryn amser inni greu digon o incwm i gyfateb â'r hyn a godwyd yn y blynyddoedd a fu. Mae ein caffis yn ailagor ond bydd nifer y lleoedd eistedd yn llai a bydd hynny'n golygu lleihad yn yr elw a fydd yn cael ei greu.

Rydyn ni'n ffodus iawn fod lotri ein hosbis yn dal i dderbyn cefnogaeth dda a phrin yw nifer y rhai sydd wedi canslo ar waetha'r ffaith fod gan ein cefnogwyr eu problemau economaidd eu hunain. Mae'r lotri yn creu llif o arian y mae mawr angen amdano yn wythnosol ac mae'n ffynhonnell incwm hanfodol sy'n cyfrannu tuag at ddarpariaeth y gwasanaeth ar gyfer y cleifion. Oherwydd y rhwystrau a wynebir gan y rhan fwyaf o'n cyfleoedd i godi arian, byddai ehangu aelodaeth lotri ein hosbis yn sicr o ddarparu llif cyson o incwm y mae mawr ei angen yn ystod yr argyfwng ariannol rydyn ni bellach yn ei wynebu.


Mae'r lotri, yn ogystal â'r cymorth busnes rydyn ni wedi'i dderbyn tra bu ein siopau ar gau a'r cynlluniau cadw swyddi wedi ein helpu i gael dau ben llinyn ynghyd yn ystod y chwe mis diwethaf. Pan ddaw'r cynlluniau i ben bydd gofynion arferol ein costau busnes yn dychwelyd ond ar yr un pryd bydd tefnu digwyddiadau sy'n codi arian mawr yn amhosibl. Rydyn ni wedi bod yn rhagweithiol yn cyflwyno digwyddiadau rhithiol a datblygu ei gwasanaeth dosbarthu bwyd llwyddiannus ond nid yw hyn ond canran fach o'r hyn sydd arnom ei angen.

Pan drawodd Cofid-19 y DU, llwyddodd trafodaethau cychwynnol rhwng Hosbis DU, ein corff cyd-drefnu canolog, a San Steffan i gael £200m ar gyfer gwasanaethau gofal lliniarol a bod £6.3m o'r cyfanswm i'w neilltuo'n benodol ar gyfer hosbisau elusennol annibynnol yng Nghymru, fel y gellid parhau i ddarparu gwasanaethau ar gyfer cleifion nes i'r llif incwm blaenorol gael ei adfer. O'r £6.3 o nawdd brys ychwanegol neilltuwyd £589,083 i Dŷ'r Eos a hyd yn hyn rydyn ni wedi derbyn tua traean o'r cyfanswm hwn. Mewn cyfnod pan fydd pob rhan o'n cymuned dan bwysau enbyd, gofynnwn i Lywodraeth Cymru gydnabod hyn a'n cefnogi drwy ryddhau'r nawdd ychwanegol a addawyd i ni mewn cyfnod pan rydyn ni ei angen fwyaf i gynllunio at y dyfodol ar gyfer ein gwasanaethau ar gyfer y cleifion. Byddwn yn dal ymlaen i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfri nes y byddwn yn derbyn yr arian sy'n ddyledus i ni. Bydd y chwe mis nesaf yn heriol dros ben i Dŷ'r Eos.

Gydol y pandemig, fel hosbis annibynnnol, rydyn ni wedi bod yn llwyr ymroddedig i barhau i ddarparu ein gwasanaethau craidd ar gyfer y rhai hynny yn ein cymuned sydd ag angen ein cefnogaeth. O wneud hyn, rydyn ni wedi medru sicrhau ein bod wedi codi cymaint o bwysau â phosibl oddi ar y Bwrdd Iechyd a'i staff mewn cyfnod a fu mor anodd a heriol i'r Gwasanaeth Iechyd.

Yn ystod yr amseroedd cythryblus hyn daliwyd ymlaen i ofalu am gleifion-mewnol. Cyhaliwyd nifer enfawr o asesiadau peryglon a dulliau diogelu i geisio cadw'r hosbis yn rhydd o Gofid-19. Bu'r staff yn anhygoel, yn derbyn pob her mewn amgylchiadau hynod o anodd. Ni ellir bychanu anawsterau gweithio wrth wisgo Offer Diogelwch Personol. Cynhaliwyd hefyd y gwasanaethau dyddiol a chefnogaeth galar serch er eu bod yn cael eu cynnal drwy dechnoleg rithiol a thros y ffôn yn hytrach na chysylltu wyneb yn wyneb. O dipyn i beth, rydyn ni'n gweld nifer cyfyngedig o'r cleifion dyddiol yn dychwelyd i'r hosbis a gobeithio y bydd amgylchiadau'n caniatáu rhagor o gleifion i fynychu'r hosbis yn y dyfodol agos.

Mae Tŷ'r Eos wedi goresgyn nifer o rwystrau yn y gorffennol ond mae'r pwysau cyllidol enbyd sy'n gwasgu arnon ni ar hyn o bryd fel canlyniad i'r pandemig, yn hollol newydd ac yn peri ini wynebu'r her fwyaf yn ein hanes. Rydyn ni mewn sefyllfa na fuom ynddi erioed o'r blaen ond rydyn ni'n hyderus y bydd rheolaeth dda, ymroddiad cyson ein staff, ein gwirfoddolwyr a'n hymddiriedolwyr a chefnogaeth wych ein cymuned yn sicrhau y byddwn yn dod allan o'r argyfwng hwn yn gryfach ac y bydd Hospis Tŷ'r Eos yn goroesi.



Steve Parry Prif Swyddog Gweithredol
Eluned Griffiths Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

“Er pan gyrhaeddodd y pandemig bu’r genfogaeth a gafodd yr hosbis o bob rhan o’n cymuned yn anhygoel; ***’allwn ni ddim diolch digon i chi’***. Allen ni ddim bod wedi cynnal ei gwasanaethau ar gyfer y cleifion yn ystod y cyfnod hwn ***heb eich cefnogeath chi.***”

- Steve Parry, Prif Swyddog Gweithredol





“Maer’ hosbis yn ***wynebu ei her*** fwyaf er pan agorodd 25 o flynyddoedd yn ôl.”

- Eluned Griffiths,
Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

# PEN-BLWYDD YN 25 OED
## OND NID FEL YR ADWAENWN EF



**Safai Cartref Nyrsio'r Plas gynt ar ein safle ar Ffordd Caer cyn ei ddymchwel ym 1994. Ar y pryd roedd cefnogwyr yr hosbis, gan gynnwys y pêl-droediwr Mark Hughed (y trydydd o'r chwith yn y darlun) wedi ymgynnull i chwifio'r faner o blaid yr adeilad newydd.**

Aeth 25 o flynyddoedd heibio er pan agorwyd yr hosbis yn Ffordd Caer, lle rydyn ni wedi bod byth oddi ar hynny yn gweini ar anghenion cleifion sy'n dioddef o anhwylderau cyfyngu ar oes

Eleni roedden ni'n cynllunio dathlu'r achlysur trwy drefnu gweithgareddau arbennig i nodi pen-blwydd arian yr hosbis ond gwaetha'r modd bu'n rhaid canslo holl weithgareddau wyneb yn wyneb oherwydd Cofid-19.

Dydyn ni ddim wedi bod yn sefyll yn ein hunfan o ran meddyliau a syniadau er pan agoron ni'r drysau yn ôl ym 1995. Yn ystod yr haf cwblhawyd dau gam y prosiect moderneiddio i'n galluogi i barhau i ofalu am fwy o gleifion mewn amgylchedd well.

Pan agorwyd yr hosbis ym 1995 roedd llawer yn digwydd yn y byd - y caneuon ar y brig oedd Take That a Robson & Jerome, cacen siocled lava tawdd oedd y bwyd trendi i'w fwyta, John Major oedd y prifweinidog ac roedd y Lotri Cenedlaethol yn ei fabandod a newydd ei lansio ym 1994.

Debbie Barton oedd y Swyddog Cyhoeddusrwydd a Chodi arian pan agorwyd Hospis Tŷ'r Eos. Meddai: *"Roedd ymdeimlad o falchder llwyr yn meddiannu pawb ac roedd cefnogaeth y cyhoedd yn anhygoel. I'r gymuned y mae'r diolch fod gennym hosbis yn Wrecsam."*

Ymunodd Tracy Livingstone â'r hosbis fis Ebrill 1905 a hi bellach yw Pennaeth Rheoli ac Addysg yr Hosbis. Meddai: *" Bu gofalu a chefnogi yn ganolbwynt gennym bob amser, hyd yn oed pan oedden ni wedi ein lleoli yn Ysbyty Maelor, mewn un ystafell fawr wedi ei rhannu gan ddodrefn addas wedi eu gosod i greu lleoedd ar gyfer eistedd a sgwrsio, prydau bwyd a gweithgareddau.*

*"Y gwahaniaeth mawr imi ydy hyblygrwydd y lleodd gwag fel y gallwn greu mannau cymdeithasu helaeth yn ôl y gofyn a chael ystafelloedd preifat ysgafn, gyda digon o awyr iach ar gyfer cleifion a'u teuluoedd er mwyn idyn nhw fedru sgwrsio â'r staff am eu teimladau, eu meddyliau ac am y pryderon sy'n eu poeni, neu drafod eu gobeithion a'u dymuniadau ar gyfer eu gofal yn y dyfodol."*



**Mae ein prosiect moderneiddio wedi darparu amgylchedd gwaith ar gyfer y staff sy'n adlewyrchu ac yn cyfoethogi'r gwasanaethau a gynigiwn i'n cleifion.**

# CYFNOD CLO

## GWEITHO DRWY LYGAID NYRS HOSBIS



Ers y cyfnod clo mae prif Nyrs y Ward Ruth Bond a'i thîm wedi dod at ei gilydd i drefnu ceisiadau munud olaf ar gyfer eu cleifion-mewnol, gan gynnwys priodas yn hwyr y nos, parti pen-blwydd, noson ffilmiau, treulio noson oddi cartref, a gwibdaith i lan y môr.

Pan gyrhaeddodd y Cyfnod Clo, creodd gymaint o ansicrwydd a braw oherwydd i'r sefyllfa waethygu mor gyflym. Noddir hosbisau drwy weithgareddau codi arian yn bennaf ac nid ydynt yn rhan o'r Gwasanaeth Iechyd nac yn cael eu cyfrif fel Cartrefi Nyrsio Cofrestredig a gwaharddodd y ddau sefydliad hyn ymweliadau. Nid oedd gwirfoddolwyr yn gallu helpu ac doedden nhw ddim ar gael yn yr hosbisau.

Meddai Ruth: *"Roedden ni'n teimlo ei bod yn bwysig cadw ein cyfleusterau ar fynd. Gwnaethom benderfyniadau anodd ac ystyried cloi'n gyfan gwbl a gwahardd ymwelwyr yn llwyr ond nid oedd hynny'n cydfynd ag ethos Tŷ'r Eos o gwbl. Buon ni'n ystyried yr effaith emosiynol y byddai hynny'n ei gael ar gleifion a'u teuluoedd a phenderfynon ni ganiatáu niferoedd bach o'r teulu ymweld â ni yn ogystal â'r ymweliadau rhithiol trwy ddefnyddio iPad."*

Dywedodd Ruth fod cefnogaeth a haelioni'r gymuned yn anhygoel gyda rhoddion o Offer Diogelwch Personol , wyau, bara, siocled ac wyau Pasg yn cael eu cynnig inni!

Meddai: "*Un wythnos cyrhaeddodd yr heddlu i glapio y tu allan i'r hosbis a bu hynny'n anferth o hwb i'r tîm."*

*"Rydw i'n hynod o falch o 'nhîm. Ar waetha'r peryglon personol iddyn nhw eu hunain roedden nhw'n dal i roi'r flaenoriaeth i'w cleifion a'u teuluoedd. Roedd gwisgo Offer Diogelwch Personol yn golygu bod ein dull o groesawu â breichiau agored a gwneud penderfyniadau wedi'u seilio ar iaith y corff yn diflannu. Mae cyfathrebu'n un o agweddau pwysicaf gofal lliniarol a newidiodd popeth yn sydyn."*

*"Roedd ein system ymgynghoriad uniongyrchol newydd yn golygu ei bod hi'n haws i deuluoedd mewn angen ddod aton ni. Rydyn ni wedi ceisio cwrdd ag amcanion a disgwyliadau cleifion trwy fod yn hyblyg a chyflawni eu dymuniadau a'u breuddwydion a gofalu bod ein tim amlddisgyblaethol yn cyd-weithio'n glòs. Dyna beth sy'n gwneud amgylchedd yr hosbis mor arbennig a pham mae cymaint o deuluoedd yn aml am roi rhywbeth yn ôl i ni drwy godi arian."*

***"Fel tîm rydyn ni'n awyddus dros ben i roi gofal o safon a llawn tosturi i'n cleifion a dyna pam mae codi arian mor hanfodol i'n hosbis, oherwydd mae'n wasanaeth nad oes neb byth am ei weld yn diflannu."***

- Ruth Bond, Prif Nyrs y Ward

# PENNAETH GWASANAETHAU CLINIGOL A CHLEIFION

## YN DANGOS YR EFFAITH AR WASANAETH YMGYNGHORIADAU UNIONGYRCHOL NEWYDD



> ***"Roedden ni i fod i ddathlu 25 mlynedd yr hosbis eleni a gweithgareddau codi arian arbennig i nodi'r garreg filltir bwysig hon. Er i'r rhain gael eu gohirio rydyn ni wedi dal ymlaen i gefnogi ein cleifion a'u teuluoedd sy'n byw dan anhwylderau cyfyngu ar oes."***
>
> - Yvonne Lush, Pennaeth Gofal Clinigol a Chleifion

Yn ystod y pandemig bu'n rhaid inni wneud newidiadau sylweddol i'r modd roeddem yn darparu ein gwasanaethau.

I osgoi pwysau ychwanegol ar y Gwasanaeth Iechyd rydyn ni'n cydweithio'n agos gyda'n cydweithwyr ar draws nifer o wasanaethau, gan alluogi cleifion i gael defnyddio gwasanaethau'r hosbis yn gynt a chyflymach.
Bydd cynnig gwasanaeth ymgynghoriad uniongyrchol, a gyflwynwyd yn gynharach eleni ar gyfer pobl ag angen gofal lliniarol, cyflyrau fel cancr, MND a diffyg ar y galon ac arnynt angen triniaeth gan ein tîm amlddisgyblaethol, yn parhau yn y tymor hir.

Mae ein gwasanaethau ar gyfer cleifion-mewnol wedi parhau ac mae'r hosbis yn dal i dderbyn cleifion sydd ag angen asesiad a thriniaeth ochr yn ochr â rheoli symptomau a rheolaeth poen yn ogystal â'r rhai sydd ag angen gofal diwedd oes.

Mae cyfyngu ar ymwelwyr a'r defnydd o fygydau gan y staff cyfan mewn rhai mannau bellach yn beth arferol. Mae llawer o gleifion Gwasnaeth Dyddiol a Diffyg ar Galon sy'n dal i fethu â theithio i'r hosbis am therapi wythnosol neu sesiynau adferiad yn aros mewn cyswllt drwy dechnoleg ddigidol ac mae cefnogaeth galar ar-lein yn parhau, diolch i dîm Cefnogaeth Teulu.

Dywedodd Yvonne Lush fod yr hosbis yn perthyn i'r gymuned a bod angen eu cefnogaeth yn fwy nag erioed i sicrhau bod gofal cleifion yn parhau.

Ychwanegodd: *"Hoffwn fanteisio ar y cyfle i roi anferth o ddiolch i bawb sydd wedi ein cefnogi drwy gyfnodau na welwyd eu tebyg o'r blaen mewn nifer o ffyrdd amrywiol; gwirfoddoli, rhoi Offer Diogelwch Personol, rhoi bwyd a diod i'n cleifion a'u teuluoedd a thîm yr hosbis neu gefnogi drwy dderbyn her gartref, prynu prydau drwy ein gwasanaeth cludiant bwyd neu ymaelodi i gymryd rhan yn ein lotri wythnosol – gwerhfawrogir eich cefnogaeth yn fawr."*

**Os ydych yn meddwl y gallech chi neu rywun sy'n annwyl gennych elwa o'r gwasanaeth hwn, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda ar 01978 316800**

# CANMOLIAETH I'R GWASANAETH YMGYNGHORIADAU UNIONGYRCHOL NEWYDD




**Bydd ein gwasanaeth newydd yn golygu y gall mynediad ddigwydd yn gynt yn ystod yr amseroedd heriol hyn**

Mae teulu claf a dderbyniodd ofal yn yr hosbis wedi canmol y staff am fod ein gwasanaeth ymgyhghoriadau newydd sbon, a sefydlwyd oherwydd Cofid-19, wedi cynnig rhaff achub o ran y gofal oedd ar gael i'w hanwylyn.

Dywedodd Gareth Valentine( iau) o Rosllannerchrugog fod ei ddiweddar dad, Gareth Valentine (hynaf), 60 mlwydd oed wedi dioddef anawsterau gartre oherwydd ei waeledd cyfyngu ar oes a rhoddodd ganiad ar y lein gyngor.

Meddai Gareth: *"Cefais air â'r nyrs a oedd yn gyfrifol a rhoddon nhw help ac arweiniad imi dros y ffôn a thawelu fy meddwl. Ar ôl trafod yr opsiynau, penderfynwyd derbyn dad i Dŷ'r Eos a rhoddwyd pethau ar y gweill ar unwaith.*

*"Mae cymorth y staff wedi bod yn anhygoel yn gofalu bod anghenion dad yn cael y flaenoriaeth a hoffwn ddiolch o waelod calon iddyn nhw i gyd am bopeth wnaethon nhw mewn cyfnod anarferol ac mi fyddaf yn trefnu gweithgareddau codi arian mor fuan â phosibl."*

Cath Evans yw'r Hyrwyddwr Mynediad a Gollwng Cleifion Tŷ'r Eos ac meddai:

*"Roedd yn dod yn fwy anodd i gleifion a'u teuluoedd gael mynediad i ofal yn gyflym oherwydd y gwaharddiadau ar bawb sy'n gweithio mewn gofal iechyd ar hyn o bryd."*

*"Nid oes rhaid i gleifion a'u teuluoedd gael atgyfeiriad gan feddyg i fedru rhoi caniad i ni gan ein bod yn medru dilyn y gwaith papur gyda'r nyrsys ardal a Meddygfeydd y Meddygon Teulu ar ôl yr alwad ffôn. Yn ôl ein profiad ni, mae hyn yn tawelu pryderon ein cleifion a'u teuluoedd sydd dan bwysau enbyd beth bynnag. Yn yr hosbis, rydyn ni'n ymfalchïo yn ein dull o feithrin gofal dros gleifion ac rydyn ni'n wirioneddol falch o fod wedi gallu helpu Gareth a'i deulu mewn cyfnod anodd.*

*"Mae hwn yn wasanaeth newydd rydyn ni'n rhoi prawf arno a bydd gwersi i'w dysgu ar hyd y daith, ond ein nod yw ceisio cefnogi cymaint o bobl â phosibl sydd ag angen ein gwasanaethau."*

Ychwanegodd Gareth: *"Pethau bychain fel hyn sy'n gwneud cymaint o wahaniaeth. Roedd fy nhad yn wirioneddol hapus yn yr hosbis, lle y cafodd ddiwedd urddasol a chysurus i'w fywyd gyda'i deulu o'i gwmpas"*

# DIGWYDDIADAU

01978 314292
nightingalehouse.co.uk/events

## ADEILADWCH FALŴN

**£25 y panel**

Mae´r syniad codi arian gwirioneddol unigryw hwn yn rhodd wych a fydd yn para am flynyddoedd i ddod! Perffaith ar gyfer dathlu pen-blwyddi a dathliadau neu'n syml mae'n gyfle i fod yn rhan o rywbeth arbennig, profiad heb ei ail, ac atgof a fydd yn aros gyda chi a'r hosbis am flynyddoedd i ddod.

Noddwch banel ac arddangos eich neges neu eich delwedd bersonol eich hunan arno (amodau a thelerau mewn grym). Bydd pob panel yn dod â ni gam yn nes at greu ein Balŵn Aer Poeth 25ain Penblwydd Tŷ'r Eos, a fydd yn esgyn i'r awyr yn 2021.

Bydd pob pryniant yn derbyn tystysgrif a bathodyn pin coffa. Bydd paneli Nawdd Corfforaethol Mwy ar gael ar gyfer busnesau. Os hoffech neilltuo panel, anfonwch e-bost os gwelwch yn dda at balloons@nightingalehouse.co.uk





## RAS HWYAID RITHIOL

**28 Hydref 2020 6.00 y.h.**
**£2.50 am hwyaden fach – Gwobrau 1af, 2ail, 3ydd safle**
**£25 am hwyaden fawr (nifer cyfyngedig) – Gwobrau 1af, 2ail, 3ydd safle**

Prynwch eich hwyaden eich hunan i gymryd rhan yn ein ras hwyaid rithiol gyntaf ar-lein a chael cyfle i ennill gwobrau anhygoel a chefnogi eich hosbis lleol. Cynhelir y ras hwyaid mewn lleoliad anhysbys er mwyn osgoi niferoedd mawr o bobl yn ymgynnull a chadw ein cefnogwyr mor ddiogel â phosibl. Bydd yn cael ei ffilmio yng ngwydd tystion ac yna'n cael ei darlledu ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol fel y gellwch weld yr hwyl yn mynd rhagddo a gweld a yw eich hwyden yn bencampwr. I brynu hwyaden, ewch i'n gwefan neu roi caniad ar 01978 314292 os gwelwch yn dda.

## CYNGERDD NADOLIG

**Dyddiad i'w gadarnau**

Yn gynharach eleni gorfodwyd ni i roi heibio ein cynlluniau ar gyfer y cyngerdd. Eleni bwriadwn drefnu cyngerdd mawreddog y gellwch ei fwynhau o gysur eich cartref eich hunan, gan ein bod yn bwriadu ffilmio talentau anhygoel perfformwyr lleol yn cynnwys côr meibion arobryn Johns' Boys. Bydd y cyngerdd yn gyfle gwych i godi calonnau mewn blwyddyn a fu'n enbyd o heriol i'r gymuned gyfan, gan gefnogi ar yr un pryd yr hosbis yn eich cymuned. Pris y tocynnau fydd £25 ar gyfer dau unigolyn a bydd yn cynnwys pecyn bwyd i ddau i chi ei fwynhau tra byddwch yn gwylio'r cyngerdd.





## SIÔN CORN YN GALW

**23 Rhagfyr 2020**
**Galwad teulu £15 (uchafrif o dri phlentyn)**

Dewch â swyn y Nadolig i'ch cartref a chynnig profiad hudol i'ch rhai bach yn ystod yr Ŵyl eleni trwy alwad fideo personol yng nghwmni Siôn Corn! Digon gwir, oherwydd Cofid-19 mae'r ellyll bach wedi bod yn brysur yn gosod Sion Corn ar-lein i'w helpu yn ystod yr cyfnod heriol hwn. Bydd eich ffiî yn cynwys llythyr personol gan Siôn Corn, bwyd hud i'r ceirw a sgwrs bersonol gyda'r prif ddyn ei hunan yng nghysur a diogelwch eich cartref eich hunan. Bydd y profiad hwn yn creu atgof arbennig y bydd eich plant yn ei drysori. Archebu ymlaen llaw yn angenrheidiol, nifer cyfyngedig o leoedd ar gael.

# MAE CASGLU COED NADOLIG YN ÔL!

Fu arnoch chi erioed eisau rhywun i gael gwared ar eich coeden Nadolig er mwyn arbed trafferth i chi eich hun, Wel rydyn ni yma i'ch helpu i wneud hynny'n union.

Yn dilyn ein hymgyrch casglu coed llwyddiannus cyntaf fis Ionawr, rydyn ni'n lansio un arall ar gyfer Ionawr 2021. Eleni byddwn hefyd yn casglu o Langollen a Llantysilio

Rydyn ni gyd wedi rhannu'r profiad o godi nodwyddau pîn allan o'r car fisoedd ar ôl taith i'r ganolfan ailgylchu felly pam nad arbedwch y drafferth i chi eich hun a gadael i ni wneud y gwaith?

Am gyfraniad (chi sy'n penderfynu faint) i ofal cleifion yn yr hosbis, bydd ein tim o wirfoddolwyr yn casglu ac ailgylchu eich coeden Nadolig.

Mae'n hawdd – y cwbl sydd rhaid i chi ei wneud ydy cofrestru eich casgliad, rhowch eich coeden y tu allan i'ch tŷ lle y gellir ei gweld yn hawdd dim hwyrach na 7y.b. ar Sadwrn 16 Ionawr 2021 a gadewch y gweddill i ni.

Byddwn yn derbyn ceisiadau i gasglu coed Nadolig o 10,00 o'r gloch y bore ddydd Llun, 2 Tachwedd 2020



**Casglon ni dros 700 o goed Nadolig fis Ionawr eleni!**

**DILYNWCH Y CAMAU SYML HYN:**

1 Cofrestrwch eich coeden i'w chasglu trwy gysylltu â ni ar 10978 314292 neu ewch i charityxmastreecollection.com
2 Tynnwch yr addurniadau i gyd oddi ar eich coeden
3. Gadewch y goeden y tu allan i'r tŷ mewn lle amlwg cyn 7.00 y.b. ddydd Sadwrn, 16 Ionawr 2021

**Mae ychydig o fân reolau er mwyn hwyluso'r casgliad i bawb:**

- Maint uchaf y goeden – 9 troedfedd.
- Rhaid iddi gael ei gadael ar y dramwyfa/ o flaen y tŷ mewn lle amlwg.
- Y tu allan cyn 7.00 y.b. – 16 Ionawr 2021.

# GALLWN GASGLU O'R ARDALOEDD SYDD Â'R CÔD –POST CANLYNOL:

**CH4**
Brychdyn , Kinnerton, Pen-y-ffordd & Pulford

**CH5**
Ewloe a Phen-ar-lâg

**CH7**
Bwcle, Caerwys, Drury, Eryrys, Coed-llai, Llanarmon-yn-Iâl, Yr Wyddgrug Mynydd Isa, Pentre'r Moch a Threuddyn

**LL11**
Bradley, Brymbo, Brynteg, Bwlchgwyn, Coed-poeth, Cymau, Ffrith, Gwersyllt, Gwynfryn, Llandegla, Llanfynydd, Mwynglawdd , New Broughton, Rhosrobin, Stansty, Tan-y-fron Wrecsam

**LL12**
Caergwrle, Cefn-y-bedd, Gresford, Hope, Llai, Marford, Yr Orsedd a Wrecsam

**LL13**
Holt a Wrecsam

**LL14**
Cefn Mawr, Y Waun, Johnstown, Pen-y-cae, Ponciau, Rhosllannerchrugog, Rhostyllen, Rhiwabon a Wrecsam

**LL20**
Llangollen and Llantysilio

# CLAF SY'N DIODDEF O GANCR YN CHWALU EI HER CODI ARIAN I DDARPARWYR GOFAL

Llwyddodd mam i un plentyn o Sir y Fflint a oedd wedi gosod her iddi hi ei hun i wneud taith gerdded noddedig, i dorri drwy ei tharged codi arian ar waetha'r ffaith ei bod wedi gorfod newid ei her ar gyngor ei meddygon.

Roedd Linda Hughes, 55 oed o Fwcle, ger Yr Wyddgrug wedi bwriadu cerdded 91 o gamau – hyd ei gardd – ugain gwaith, ond golygodd y newid yn ei thriniaeth cemotherapi nad oedd yn ddigon cryf i ddal ymlaen â thaith gerdded o'r fath. Yn lle hynny, dewisodd eillio ei gwallt wedi'i gwisgo fel Wonder Woman gan fod y meddygon wedi dweud wrthi y byddai'n debygol o golli ei gwallt yn dilyn y driniaeth'

Canfuwyd bod ganddi gancr y fron yn 2012 a chancr eilaidd y fron yn 2019 a oedd wedi chwalu i'w chlun a'i hasgwrn cefn. Fis Ebrill dywedwyd wrthi fod y cancr wedi lledu i waelod ei phenglog.

Mae'n derbyn triniaeth yn uned Seren Wib yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac mae hefyd wedi dewis rheoli ei symptomu yn glaf-mewnol yn Ysbyty Ty'r Eos am bythefnos.

Meddai Linda: *"Es i i'r ysbyty'n ddiweddar yn disgwyl y byddai'r meddygon yn dweud wrtha i na fydden nhw'n cynnig mwy o driniaeth imi ond pan ddwedon nhw 'mod i i gael mwy o gemotherapi allwn i ddim credu'r peth."*





Dywedodd Linda sy'n fam i fab Nathan 12 oed ac sy'n gynrychiolydd rhieni i Glwb Pêl-droed Colts Tre Bwcle, lle mae Nathan yn aelod o'r tîm, nad oedd hi'n berson 'Beth petai' ac mae'n byw bywyd i'r eithaf. . *"Wn i ddim faint sy gen i ar ôl ond y 12 mlyneddd dw i 'di'u cael gyda Nathan fu'r rhai hapusaf i mi. 'Dw i'n benderfynol o ymladd am fwy o amser gyda fy mab."*

*"Mae Tŷ'r Eos yn lle gwirioneddol arbennig. Does dim yn ormod o drafferth i'r staff. Maen nhw'n eistedd a gwrando arna i hyd yn oed os ydw i'n meddwl 'mod i'n malu awyr. Maen nhw'n gwrando ar hanes fy mywyd ac fel y ganwyd Nathan yn wyrth o faban pan oeddwn yn 43 oed. Yr hanesion hyn a Nathan sy'n fy ngwneud i'r person ydw i. Mae tîm Tŷ'r Eos yn rhoi amser imi ac yn gwrando arna i heb farnu."*

**Yn y darlun ar y dde: Linda yn mwynhau amser gwerthfawr gyda'i mab Nathan 12 oed.**

# GWIRFODDOLI



Mae Cofid-19 wedi effeithio ar bob rhan o waith yr hosbis gan gynnwys gweithlu ein gwirfoddolwyr ymroddedig. Yn gynharach eleni, pan ddaeth y cyfnod clo, bu'n rhaid i'n hosbis ohirio dros dro bob un o'n gweithgareddau gwirfoddol. Nid ar chwarae bach y gwnaethon ni'r penderfyniad ond ein blaenoriaeth oedd diogelu ein gwirfoddolwyr, ein cleifion a'u teuluoedd, a'n staff. Yr unig eithriad i'r rheol hon oedd y gwirfoddolwyr yr oedd arnon ni eu hangen i genfogi ein gwasanaeth newydd yn dosbarthu bwyd (gan cynnwys ein te prynhawn poblogaidd ) sydd wedi bod yn wasanaeth llwyddiannus iawn

Mae llawer o'n cefnogwyr teyrngar a fu'n gwirfoddoli ers tro byd yn dechrau dychwelyd ac rydyn ni'n falch o'u croesawu'n ôl. Prun bynnag, nid yw rhai o'r gwirfoddolwyr yn medru dychwelyd ac mae gofyn inni recriwtio gwirfoddolwyr newydd i'n cefnog ni ymhob agwedd ar waith Tŷ'r Eos .

## MAE AR EIN HOSBIS EICH ANGEN CHI!

Mae amrywiaeth eang o rolau gwirfoddoli yn Nhŷ'r Eos. Yn ein siopau a'n caffis, yn ein gweithgareddau codi arian ac yn adeilad yr hosbis ei hunan ac ar hyn o bryd mae llawer o gyfleodd i wirfoddoli ar gael.

**Ar hyn o bryd mae arnon ni eisiau gwirfoddolwyr i gefnogi:**

- Siopau ar hyd a lled Wrecsm a Sir y Ffint a Swydd Amwythig
- Ein siop eBay
- Gweithgareddau codi arian a digwyddiaday yn y dyfodol
- Lotri – casglwyr arian
- Dau gaffi – Caffi Cwtsh a Chaffi Stryt y Rhaglaw
- Gwasanaeth Gwaith Allanol yn y Gymuned

Yn olaf, diolch mawr i weithlu anhygoel ein gwirfoddolwyr am yr holl waith rydych chi'n ei wneud, os bu angen i chi aros gartref dros yr ychydig fisoedd diwethaf neu os ydych wedi dod i mewn i gynnig help llaw, rydych chi i gyd wedi chwarae rhan bwysig

## Ydych chi wedi eich ysbrydoli?

**Os hoffech wybod mwy, rhowch ganiad ar 01978 316800 neu e-bostio i nfo@nightingalehouse.co.uk. Byddem wrth ein bodd yn clywed oddi wrthych!**

**Sylwer: Bydd rhaid i unrhyw wirfoddolwr a ofynnwyd i gysgodi barhau i aros gartref. Gymaint ag yr ydyn ni wedi gweld eich colli fel rhan o deulu'r hosbis, mae'n hanfodol eich bod yn cadw'n ddiogel.**


# I'N CYMUNED HAEL YN YSTOD C

Mae DTCC yn hael iawn wedi cyfrannu £5,290


Rhedodd yr efeilliaid Adam a Nathan Hughes 10km. Ar ddiwrnod VE a chodi £355


Cwblhaodd Ieuan Evans daith noddedig 14 milltir ar gefn beic  a chodi £324.61


Cyfrannodd Siop Ffarm Lesters a Siop Goffi Suasan ffrwythau ffres a diodydd ysgafn


Cyfrannodd Everlands bysgod a sglodion i dîm yr  hosbis yn ystod y cyfnod clo


Daeth 22 o ffrindiau at ei gilydd yn un tîm i godi £6,410 er cof am ffrind da Chris Edge


Cododd Morgane £400 yn gwerthu ei dewis o ddillad plethu-a-lliwio yn ein Siop Eos ar Stryt y Rhaglaw


Heriodd Rhys Parry ei hun i fynd am y toriad gwallt eithaf yn ystod y cyfnod clo  a chododd ei 'Doriad Gwallt Gwarthus' £472


Creodd Mary Marmalêd fagiau golchi dillad i roi help llaw i olchi ein gwisgoedd nyrsys yn ddiogel


Rhoddodd Village Bakery fara i'n cleifion, ein staff a'n gwirfoddolwyr


Cyflwynodd Knights Construction Group siec am £1,951.01


Rhoddodd Palstipak 2,300 potelaid o ddŵr i'r cleifion a'r staff a'r gwirfoddolwyr.

# COFID 19 – DIOLCH!



Trawodd Pamela Valentine 260 o ergydion golff mewn un awr a chododd £2,605



Rhedodd Eleanor Dowsett 5 cilometr bob dydd ym mis Mai gan godi £1,162.



Rhoddodd Nicepak Glytiau Gwrthfacterol




'Blawdgododd' Katie Watkin £410 yn pobi gyda help ei bechgyn Ant ac Oliver




Cododd trigolion Llanarmon-yn-Iâl £1,1880 trwy drefnu cystadleuaeth' Gŵyl Fawr y Daten'



Anogodd Ipsen Biophram deuluoedd eu tîm i dynnu lluniau lliwgar i helpu godi calonnau



Tynoodd Rachel Hale luniau o deuluoedd ar eu stepen drws yn ystod y cyfnod clo a chodi £985



Rhoddodd Kelogg's a'i chwaer gwmni Portable Foods £1,000 a rhoddion hael o rawnfwydydd




Cerddodd Cindy Jones a Samantha Roberts drwy'r gwynt a'r stormydd o Wrecsam i Gaerdydd a chodi £2,461



Cododd y Sun Trefor £1,800 trwy gynnal cwis tafarn rithiol wythnosol



Cododd y canwr Shea ferron £270 â'i gyngerdd rhithiol ar Facebook

A rhoddodd Wrexham Lager £500

# ADWERTHU

01978 262589
nightingalehouse.co.uk/shops

## AILAGOR SIOPAU

Ar y cyd â holl siopau anhanfodol eraill, bu'n rhaid i'n siopau elusen gau ddiwedd mis Mawrth ac ni dderbyniwyd unrhyw incwm ganddyn nhw dros y misoedd diwethaf.

Gan ein bod bellach yn medru ailagor, ein blaenoriaeth fydd diogelu ein cefnogwyr, ein staff ein gwirfoddolwyr a'n staff. Rydyn ni wedi cymryd y camau priodol i sicrhau hyn. Byddwch yn gweld bod siopa yn ein siopau fymryn yn wahanol, ond rydyn ni am i'r profiad fod mor bleserus â phosibl. Rydyn ni wedi cyfyngu ar nifer y cwsmeriaid sy'n gallu dod i mewn i'r siopau ar yr un pryd ac rydyn ni wedi cyflwyno system unffordd mewn rhai siopau. Byddwch yn gweld gorsaf ddiheintio dwylo pan ddewch i mewn i'r siop ac rydyn ni wedi gosod sgriniau wrth bob til ac wedi darparu fisorau neu fygydau i ddiogelu ein cwsmeriaid, ein gwirfoddolwyr a'n staff.

Er bod gennym hawl i agor yn y Stryd Fawr mae'r niferoedd yn llawer is nag arfer ar hyn o bryd ac felly rydyn ni'n arfer dull ystyriol a phwyllog wrth ailagor ein siopau.

Ailagoroddd ein siop adrannol yn Stryt y Rhaglaw . Wrecsam yn ôl ym mis Gorffennaf a byddwn yn ailagor ein siopau eraill yn ystod y mis neu ddau nesaf. Y siopau olaf i ailagor fydd yng Nghroesoswallt a'r Rhos a fydd yn agor tua diwedd mis Hydref. Cadwch olwg ar ein gwefan a'n cyfrwng cymdeithasol am y newyddion diweddaraf.

Yn y cyfamser gellwch barhau i'n cefnogi drwy siopa ar-lein – drwy ein siop eBay. Yn union fel yn ein siopau 'fyddwch chi byth yn siŵr beth ddewch ar ei draws yno. Os ydych yn awyddus i'n helpu yn ein siopau ar-lein boed hynny drwy restru, eitemau ffotograffig, ymchwilio ar lein, yna cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

## GWIRFODDOLWYR

Mae rhoddi o'ch amser a'ch doniau'n rhywbeth gwerthfawr iawn ac mae'n rhywbeth rydyn ni'n ei wethfawrogi'n fawr iawn. Heb ein gwirfoddolwyr, ni fyddai ein siopau yn medru gweithredu a chodi arian i'r hosbis.

Mae gwirfoddoli'n ffordd wych o gefnogi'r hosbis a chyfrannu rhywbeth i'r gymdeithas. Mae llu o fanteision i wirfoddoli, mae'n ffordd wych o fynd allan a chyfarfod â phobl a bod yn rhan o dîm . Gall eich helpu fynd yn ôl i weithio ac mae'n brofiad i'w ychwanegu at eich Braslun Bywyd.

Yn ein siopau mae gennym amrywiaeth eang o rolau a gellwch ddewis yr un sy'n gweddu i chi. . Boed hynny'n gofalu am ein cwsmeriaid neu'n sicrhau bod y ffenestri a'r siop yn edrych mor ddeniadol â phosibl. Efallai fod gennych ddiddrdeb arbennig mewn ffasiwn neu lyfrau ac'ch bod yn mwynhau gosod mewn trefn y rhoddion fel y dônt i'r siop. Pa beth bynnag fo'ch diddordeb bydd rhywbeth yn siŵr o fod yno ar eich cyfer. Galwch i mewn yn eich siop leol a siaradwch â'r rheolwr a fydd yn medru dweud wrthych chi pa gyfleoedd sydd ar gael.

## LLAWER O GARIAD!

Mae ein Siop Anrhegion yn yr hosbis yn ymuno â Chaffi Lot 11 yn Wrecsam i greu Siop Anrhegion dod-i'r-Fei ar lawr cyntaf Lot 11 ar ddyddiau Mawrth, Mercher a Iau o 27 Hydref hyd 17 Rhagfyr. Bydd dewis o anrhegion o safon gan gynnwys eitemau cynhyrchwyr lleol ar eich cyfer i ddewis yr anrheg berffaith. Dilynwch ein tudalen Facebook newydd 'Y Siop Anrhegion yn Nhŷ'r Eos' i weld y faint o gynhyrchion sydd ar gael a dilyn y newyddion diweddaraf am ein cynlluniau ar gyfer siopau dod-i'r-fei eraill sydd i'w trefnu cyn y Nadolig. Bydd holl elw'r Sip Anrhegion yn mynd tuag at noddi gofal cleifion yn yr hosbis.



**DIOLCH I CHI am eich rhoddion a'ch cefnogeth gyson yn ystod y cyfnodau heriol hyn.**

*giftaid it*

**Cofiwch, os ydych yn drethdalwr yn y DU gellwch gynyddu gwerth eich rhodd o 25% trwy ddull Rhodd Gymorth pan fyddwch yn dod â'ch rhodd i ni. Mae'n gyflym a hawdd. Gofynnwch am fanylion llawn yn y siop.**

# NIGHTINGALES

CODI ARIAN I HOSPIS TŶ'R EOS

# PEIDIWCH AG OEDI
# CYFRANNWCH

Rydyn ni'n falch o gyhoeddi fod ein siop newydd ym **MHARC BORRAS** newydd agor! Wedi'i lleoli ar rodfa brysur o siopau ar Ffordd Parc Borras mae'r siop gymunedol hon nid yn unig yn hwylus ar gyfer siopa ond hefyd mae'n ganolfan lle y gellir derbyn rhoddion.




I drefnu casgliad **AM DDIM*** cysyllter â **01978 262589**
**regentstreet.shop@nightingalehouse.co.uk**

*Am resymau diogelwch mae rhai eitemau na allwn eu derbyn. Casgliad yn dibynnu ar y lleoliad. Casgliad ar gyfer eitemau mawr yn unig.

# EIN PABÏAU CYMREIG BYTHOL

Mae gweirglodd y pabîau Cymreig wedi bod yn swyno ymwelwyr ym Mhlas Erddig yn Wrecsam yn ystod yr haf, ac mae ein hymgyrch i ddathlu lles a bywyd wedi darparu arddangosfa syfrdanol.

Ymunon ni â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol unwaith eto i hyrwyddo'r arddangosfa o 1,200 o babïau melyn llachar yng ngardd ffurfiol y plasty. Mae'n dilyn ein hymgyrch blodau haul llwyddiannus y llynedd yng Nghastell y Waun.

Mae'r blodau melyn hoenus a luniwyd ar ein dewis ni gan Ganolfan Gwaith Haearn Croesoswallt i'w gweld fel atgof parhaol am anwylyn ac yn cydnabod y cannoedd o bobl a dderbyniodd ofal yn Nhŷ'r Eos dros y 25 mlynedd diwethaf.

Mae coes pob pabi'n wag ac mae'n galluogi'r prynwr i osod enw neu lun bach neu gofrodd sy'n gysylltiedig â'r anwylyn. Noddwyd yr ymgyrch yn garedig iawn gan fusnesau Excell Supply Ltd a DTCC.

Bwriad gwreiddiol yr hosbis oedd arddangos y pabïau yn ystod Mehefin ond oherwydd bod holl adeiladau a gerddi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar gau, bu'n rhaid i ni ohirio ein cynlluniau. O'r herwydd, digwyddodd yr arddangosfs gydol Gorffennaf ac Awst.


Dywedodd Delyth Underwood, Codwr Arian Er Cof Hospis Tŷ'r Eos fod mwy o angen nag erioed o'r blaen i gefnogi'r hosbis. Meddai: 'Cawsom ein llethu gan lwyddiant ein gweirglodd Blodau Haul yng Nghastell y Waun y llynedd, felly roedd yn ymddangos yn briodol i ddod o hyd i flodyn arall y gallai ein cefnogwyr ei fwynhau unwaith yn rhagor, Bu'r pabi Cymreig yn anhygoel o boblogaidd ac mae'n dangos yn glir gariad a theimladau annwyl ein cefnogwyr ledled yr ardal tuag at yr hosbis.

Meddai Jon Everall o Excell Supply Ltd.: *"Mae Excell Supply yn hynod o falch o fod yn noddi Hospis Tŷ'r Eos am y tro cyntaf yn yr ymgyrch codi arian hyfryd hwn. Mae'r pabïau yn Erddig yn edrych yn ysblennydd ac maen nhw wedi helpu i ddarparu cefnogaeth ariannol yr oedd mawr ei hangen ar gyfer yr elusen leol deilwng hon."*



Rydyn ni eisoes yn brysur yn cynllunio arddangosfa barhaol 2021 ac os oes gennych flodyn sy'n ffefryn arbennig gennych yr hoffech ei weld fel ein prif flodyn arddangos y flwyddyn nesaf anfonwch e-bost at **delyth.underwood@nightingalehouse.co.uk** yn cyflwyno eich syniadau.

# GALWADAU AR-LEIN YN CADW EIN CLEIFION MEWN CYSWLLT Â'I GILYDD



**Mae cyfathrebu'n un o agweddau pwysicaf wrth ddarparu gofal i'n cleifion a rhoddir sylw i'r dull mwyaf addas bob tro.**

I ddiogelu ein cleifion a'n staff yn ystod y cyfnod clo bu'n rhaid i ni weithredu dan ganllawiai llym. Ni châi cleifion dyddiol bellach ymweld â, na chael mynediad i wasanaethasu gwerthfawr wyneb yn wyneb, yn cynnwys ffisiotherapi, hydrotherapi, cefnogaeth galar, aromatherapi, therapi arlunio a cherddoriaeth.

Trefnodd Ken Ryan sy'n rheoli Canolfan Gwasanaethau Dyddiol alwadau grŵp rheolaidd ar-lein i sicrhau nad oedd cleifion yn teimlo'n unig ac wedi eu hynysu. Bu'r llifeiriant o adborth a dderbyniodd y tîm gan gleifion y gwasanaeth dyddiol a'u teuluoedd yn gymhelliant i bawb ddal ati.

Meddai Jim: *"Rydw i'n gweld colli dod i'r hosbis bob wythnos felly mae'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig ar Zoom yn wych i gadw mewn cysylltiad. Gan fy mod wedi fy rhestru yng nghategori'r rhai bregus, 'alla i dim mynd allan am dri mis felly hwn ydy'r peth ail orau."*

Meddai Ed : *"Rydw i'n hunanynysu gartref felly mae cadw mewn cysylltiad a gweld wynebau cyfarwydd yn bwysig a gwerthfawr dros ben i mi."*

Pan fydd Kathy yn ymweld â'r hosbis mae wrth ei bodd yn cael trin ei gwallt a chyfarfod â ffrindiau. Meddai hi: *"Rydw i'n colli'r gwmnïaeth a medru sgwrsio ac er nad ydw i'n deip technegol o berson, roedd arna i eisiau ymuno â Zoom er mwyn cadw cysylltiad â phawb yn Nhŷ'r Eos."*

Meddai Garth: *"Dw'in gweld colli'r awyrgylch cynnes a chroesawus yn yr hosbis a'r ciniawau hyfryd o Gaffi Cwtsh."*

I Doreen (nid ei henw iawn) bu'n gyfle i drafod pryderon iechyd mewn sefyllfa un i un. Meddai hi: *"Dw i wedi bod yn dioddef oddi wrth bryderon iechyd yn ystod y cynfod clo ond mae medru cysylltu â Kay a'r tîm yn tawelu'r meddwl."*

Meddai Kay Ryan: *"Roedden ni'n teimlo, tra oedden ni'n methu â gweld ein gilydd wyneb yn wyneb, y gallen ni wneud y peth ail orau . Roedd yr holl staff yma'n gweld colli'r cleifion, felly roedd arnon ni eisiau iddyn nhw deimlo."*

# PAN DDAETH HI I'R PEN
# ROEDD PRYDAU'N CYFRI O DDIFRIF

Pan ddigwyddodd y cyfnod clo yn ôl yn y gwanwyn wynebodd tîm yr hosbis dasg enfawr i ddod o hyd i ffynonellau nawdd eraill ar ôl i raglen y gweithgareddau blynyddol gael eu canslo neu eu gohirio a'n siopau a'n caffis ar gau.

Mewn ymdrech i gau rhai o'r bylchau yn ein gweithgareddau codi arian, disgleiriodd ein Caffi Cwtsh arobryn yn fflam o obaith

Ar ôl i'r caffi gau yn dilyn cyngor y llywodraeth, daliodd Y Pen gogydd Peter Jackson a'i dîm ymlaen ar y safle i ddarparu'r holl brydau bwyd arbenigol ar gyfer y cleifion-mewnol. Gan fod rhaid iddyn nhw aros o fewn yr adeilad, er nad oedd cwsmeriaid yn ymweld â'r caffi , cafodd Peter y syniad o droi eu cegin yn fenter symudol a chreu 'Prydau'n Cyfri'

Bu'r fenter newydd mor llwyddiannus fel bod y gwasanaeth yma i aros ac ar hyn o bryd mae'n cael ei ddatblygu trwy lunio bwydlen newydd sbon. Mae'n barod wedi paratoi dros 4,999 o gludfwydydd ac wedi codi £30,000.

Mae Prydau'n Cyfri wedi cael ei gefnogi'n wych gan dîm bach o wirfoddolwyr sydd wedi helpu trwy dderbyn archebion, paratoi bwyd yn y gegin a dosbarthu'r prydau o fewn cwmpas 5 milltir i'r hosbis.

Meddai Peter: *"Roedd yn ymddangos y beth call i ddefnyddio ein cegin broffesiynol ar gyfer profiad Caffi Cwtsh amgen. Roedd gennym nifer o gwsmeriaid a fyddai'n cael blas ar ddod i'n caffi i fwynhau bwyd da, cyfarfod â ffrindiau ond yn bwysicaf oll i greu llif o incwm ar gyfer costau cynnal yr hosbis."*

Meddai Laura Parry, Pennaeth Codi Arian: *"Roedden ni eisoes yn gwybod fod gan Caffi Cwtsh le arbennig yng nghalonnau pobl a'i fod yn cael ei gefnogi'n dda. Yr hyn na allen ni byth fod wedi breuddwydio amdano oedd maint y gefnogaeth a gaem gan y cyhoedd ac fel y gwerthfawrogid y bwyd a oedd yn cael ei ddosbarthu o gwmpas y gymuned.*

*"Roedden ni'n fwy na bodlon i wneud ein rhan i fwydo'r cymunedau a'u cadw mewn cyswllt â'i gilydd. Ni allwn ddiolch digon i'r cyhoedd am eu caredigrwydd a'r gefnogaeth a ddangswyd tuag aton ni – mae'n gwneud inni deimlo'n wirioneddol ostyngedig."*

Mae ein Tîm Arlwyo yn brysur yn datblygu ein gwasanaethau arlwyo newydd sy'n cynnwys menter arlwyo corfforaethol a gwasanaeth prydau parod wedi'u rhewi. – 'Prydau Caffi Cwtsh'.




**Dathlodd Madge (yn y llun)) ei phen-blwydd yn 90 oed â the blasus, a baratowyd a'i ddosbarthu gan dîm Prydau'n Cyfri!**



**Mae Caffi Cwtsh bellach wedi ailagor ac mae'n barod i'ch croesawu'n ôl.**

**Ar agor Dydd Llun-Dydd Sadwrn 10.00 y.b. – 4.00 y.h.**

**Ffôn: 01978 447550**

# CEFNOGAETH HANFODOL I'N GWASANAETH PRYDAU'N CYFRIF

Mae Seiri Rhyddion Gogledd Cymru drwy eu Grŵp Ymateb i Cofid-19 wedi rhoi £9,500 i gefnogi ein gwasanaeth dosbarthu bwyd newydd a lansiwyd i helpu rhai o bobl mwyaf bregus Bwrdeistref Sirol Wrecsam trwy fynd â phrydau bwyd i'w cartrefi yn ystod y pandemig.

Daw'r grant o £9,500 gan Seiri Rhyddion Gogledd Cymwy o Sefydliad Elusengar Masonaidd a noddir gan Seiri Rhyddion ledled Cymru a Lloegr. Mae'r grant wedi cefnogi'r hosbis a galluogi ein staff a'n gwirfoddolwyr i barhau i ddarparu gwasanaeth dosbarthu bwyd am nifer o wythnosau yn ystod y cyfnod clo.

Meddai John Hoult, Pennaeth Seiri Rhyddion Gogledd Cymru: *"Mi wnes i ymweld â Hosbpis Tŷ'r Eos cyn argyfwng Cofid-19 a chreodd eu cyfleusterau gwych gryn argraff arna i. Amlygodd cynhesrwydd croeso'r staff cyfan a'r gwirfoddolwyr pam mae hwn yn lle mor arbennig o fewn y gymuned leol. Rydw i wrth fy modd yn gweld effaith ein cefnogaeth sylweddol i'r prosiect hanfodol hwn ac yn dymuno'r gorau i bawb yn yr hosbis yn eu menter dosbarthu bwyd newydd."*




# NEWYDDION CYFFROUS I BAWB SY'N HOFFI JIN!

Yn yr Hydref eleni, byddwn yn lansio ein jin ni ein hunin! Rydyn ni'n cydweithio'n agos gyda distyllfa arobryn leol, Shropshire Distillery, i greu ein cymysgedd llysieuegol unigryw ein hunain i nodi ein pen-blwydd arbennig.

Mae Shropshire Distillery sydd â'i ganolfan yn Ellesmere, wedi ennill sawl gwobr am eu jin er pan ddechreuon nhw ddistyllu yn ôl ym mis Gorffennaf 2018 a bellach maen nhw'n cynhyrchu sawl jin o safon y mae galw mawr amdanyn nhw.

Fel rhan o'r bartneriaeth,mae perchnogion y ddistyllfa, Emma a Gareth (darlun ar y dde) yn garedig iawn wedi neilltuo canran o werthiant pob potel i helpu noddi cronfa gofal cleifion i gefnogi Tŷ'r Eos. Gellir prynu Jin Tŷ'r Eos mewn poteli 70cl am £36.50 trwy fynd i'r ddolen gyswllt ar wefan yr hosbis.

**Os dymunwch gael eich ychwanegu at y rhestr aros anfonwch e-bost at info@nightingalehouse.co.uk neu rhowch ganiad ar 01978 314 292.**



# A FU 'RIOED FFASIWN BETH…
## PINAFAL, PRIODFERCHED, RHWYFO AC ERAILL




Bu aelodau staff o bob rhan o'r hosbis yn rocio codi arian yn ystod y cyfnod clo. Gwisgodd Laura Parry, Pennaeth Adran Codi Arian a Lauren Tilston, Pennaeth Cynhyrchu Incwm ddillad ffansi yn ystod gwres mis Mai fel rhan o Her Cenedlaethol 2.6. Aeth Kim Roach, aelod o'r tîm Lotri i afael â'r her a rhwyfodd bob dydd am 26 o ddiwrnodiau ar ei pheiriant rhwyfo yn ei garej a cherddodd y Dirprwy Weithredwr, Sam Scott bob dydd am chwe diwrnod gyda'i theulu.

Anogwyd elusennau ledled y DU i dderbyn her i helpu miloedd o elusennau sy'n methu â chael yr arian hanfodol bwysig a godir gan redwyr sy'n cymryd rhan yn Ras Marathon flynyddol Llundain.


Rhedodd y ddwy, Laura a Lauren, 2.6 milltir bob dydd am 26 o ddiwrnodiau ar gyfer yr hosbis. Aeth Laura i'r afael â'i her wedi'i gwisgo fel pinafal, tra dewisodd Lauren, ynghyda'i dyweddi Mark, wisgoedd ffansi gwahanol bob dydd.

Dewisodd Lauren a Mark, a orfodwyd i ohirio eu priodas ddelfrydol dramor tan y flwyddyn nesaf, wisgo fel priodfab a phriodferch ar gyfer eu rhediad olaf a oedd yn disgyn ar y dyddiad yr oedden nhw i fod i briodi, a gwnaethant hynny i gyfeiliant ffanffer o fonllefau eu cymdogion, rhubanau a chonffeti.

Cododd Laura dros £700 a chododd Lauren a Mark £3,188, diolch i haelioni caredig ffrindiau, teulu a chymdogion.

Roedd her Kim yn un arbennig o ddwys gan ei bod yn rhwyfo er cof am ei gŵr Joe a fu farw o gancr dair blynedd a hanner yn ôl. Roedd Kim a'i dwy ferch, Jessica a Katie, wedi elwa'n fawr o gymorth Tim Cefnogi Galar yr hosbis a fu'n eu harwain i ddod i delerau â marwolaeth Joe. Cododd ei her rhwyfo dros £1,1000.

Cerddodd Sam a'i theulu ifanc 2.6 milltir bob dydd yn ystod eu hymdrech codi arian a gyda'i gilydd codon nhw £761.



**WEDI EICH HYSBRYDOLI?**

**Os hoffech godi arian a helpu eich hosbis lleol, rhowch ganiad ar 01978 314292 os gwelwch yn dda!**

# MYNYDD KILIMANJARO
## YDY O AR EICH RHESTR BWRIADAU?

Awydd rhoi her i chi eich hunan ar ein hantur dramor fwyaf mentrus hyd yn hyn i godi arian. Mae gennym unarddeg o leoedd gwag ar gyfer y daith unwaith mewn oes hon i Fynydd Kilimanjaro, mynydd uchaf Affrica (23 Medi – 3 Hydref 2021).

Mae ein hirdaith un diwrnod ar ddeg wedi ei llunio i ganiatáu cyfnod o ymgynefino'n raddol â'r uchder, sy'n gosod y llwyfan ar gyfer cyrraedd y copa'n llwyddiannus. Gyda chefnogaeth anhygoel, arweinwyr wedi'u hyfforddi i'r safon uchaf a swyddogion meddygol byddwn yn llwyddo i oresgyn y daith gerdded gyda'n gilydd fel un.

Os ydych yn chwilio am yr her hirdeithio eithaf, yna does dim rhaid edrych ymhellach i gyflawni rhywbeth anhygoel.



Cafodd dyfodiad Cofid-19 a'i ledaeniad ar draws y byd effaith enfawr ar yr her dramor i Machu Picchu eleni a bellach gohiriwyd ein hirdaith tan Hydref 2021.

Rydyn ni mor ddiolchgar i'r grŵp anhygoel hwn a lwyddodd, hyd yn oed yn y cyfnod mwyaf heriol hyn, i godi £60,000. Os ydy Llwybr yr Inca ar eich rhestr bwriadau mae lle i nifer fach ar gael erbyn hyn!

# RHOWCH HER I CHI'CH HUNAN!

Mae llawer o'n cefnogwyr yn dewis derbyn her er mwyn codi arian a fydd yn cefnogi gwaith yr hosbis. Boed gerdded, seiclo, neu hirdeithio mae yna her i bawb. Ymunwch ag un o'r digwyddiadau isod neu dewiswch eich her eich hunan a gadael inni wybod eich bod yn cymryd rhan.

**YR WYDDFA YN Y NOS** (22-23 MAI 2021)
Goresgynnwch fynydd uchaf Cymru yn y nos.

**MUR HADRIAN** (25 – 27 MEHEFIN 2021)
Cynlluniwch eich ymosodiad a goresgyn Mur Hadrian!

**LLUNDAIN I BARIS** (14-18 GORFFENNAF 2021)
Pedwar diwrnod, dwy brifddinas, un antur syfrdanol.

**CYMRU O'R NAILL BEN I'R LLALL** (12-15 AWST 2021)
O Sir Fôn i Gaerdydd, trechwch Gymru ar gefn beic!

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Bethan yn y swyddfa godi arian ar 01978 314292.**



# GOLEUO BYWYD
## YN MYND YN DDIGIDOL!

Bob blwyddyn bydd cannoedd o bobl yn cyflwyno golau i'w hanwyliaid ar ein coed Goleuo Bywyd, gan godi miloedd o bunnau i ddarparu gofal arbenigol a chefnogaeth i bobl leol yn Nhŷ'r Eos.

Newidiodd Cofid -19 nifer o gynlluniau eleni; prun bynnag, rydyn ni'n benderfynol ein bod yn dathlu Goleuo Bywyd. Byddwn yn defnyddio technoleg fodern i gynnig mwy o ffyrdd i chi wneud eich cyflwyniadau arbennig i gofio am eich anwyliaid yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Tra byddwch yn dal i fedru cyflwyno yn y ffordd draddodiadol, am y tro cyntaf un, gellwch adael neges a llun eich anwylyn a bydd eich golau'n ymddangos ar goeden Nadolig rithiol ar-lein. Os ydych yn cyflwyno'n rhithiol neu fel y buoch yn ei wneud yn y gorffennol, goleuir golau ar goed yr hosbis.

Bydd y gwasanaethau'n ymddangos ychydig yn wahanol hefyd. Mae gwasanaethau wedi'u trefnu ar gyfer Wrecsam, yn cynnwys gwasanaeth pen-blwydd arbennig yn Eglwys y Plwy San Silyn ynghyda gwasnaethau posibl eraill ar hyd a lled yr ardal. Gellwch fod yn dawel eich meddwl na fydd y rhain yn digwydd oni bai ein bod yn ystyried ei bod yn ddiogel i wneud hynny a bod canllawiau'r llywodraeth yn caniatáu. Rhoir blaenoriaeth i les ein cefnogwyr a'r gymuned.

Ar 6 Rhagfyr, trefnir gwasanaeth yn Eglwys y Plwy San Silyn, Wrecsam am 4.00 y.h. a chynhelir gwasanaeth llai yr hosbis am 6.00 y.h.. Os ydych yn medru dod ai peidio, byddwn yn ffilmio gwasanaeth fel y gellwch ei wylio yn gysurus a diogel yn eich catref.

Y naill ffordd neu'r llall, byddwn yn rhannu'n amser arbennig hwn a bydd ein coed Nadolig yn disgleirio'n llachar dan gannoedd o oleuadau. Rydyn ni cadw golwg ar gyfarwyddiadau'r Llywodraeth a byddwn yn cyhoeddi ein cynlluniau cyn gynted ag y bo modd.

Nid oes isafswm o ran rhoddion, yr unig beth a ofynnwn yw eich bod mor hael â phosibl fel y gellwch ddal ymlaen i helpu 'gwneud pob munud i gyfrif' i'n cleifio a'u teuluoedd.

**Os hoffech gael rhagor o fanylion cysylltwch ar 01978 314292 neu ar ebost info@nightingalehouse.co.uk**

## BETH SY 'MLAEN YN BRODYR BELLIS?

**Penwythnos Gŵyl y Nadolig**
Dydd Sadwrn 28 Tachwedd & dydd Sul 29 Tachwedd 2020.

Ymunwch â ni yn ein 'Penwythnos yr Ŵyl' a helpwch ni i godi arian angenrheidiol i Hospis Tŷ'r Eos.

Dewch i weld y ceirw go iawn y tu allan ynghanol ein coed Nadolig ac ymweld â Siôn Corn. Adran siopa Nadolig, cerddoriaeth yr Ŵyl, a phabell crefftau ac anrhegion Nadoligaidd, a mwy.

**Sylwer: Ni fyddwn yn cynnal ein Noson Lansio'r Nadolig Nos Wener eleni.**

**Brecwast efo Siôn Corn**
Oedolion: £8.95 yn cynnwys brecwast a diod - Plant: £8.45 yn cynnwys brecwast, diod ac anrheg gan Siôn Corn wrth eich bwrdd. Os gwelwch yn dda rhowch ganiad i'r bwyty yn uniongyrchol ar 01829 272031 o 1 Hydref 2020. Mwyafrif y nifer wrth fwrdd yw 6.

**Groto Siôn Corn**
11yb – 4yp £5.00 y plentyn Teulu agosaf yn unig.

Am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'r uchod, yn cynnwys dyddiadau sydd ar gael, ewch i bellisbrothers.co.uk neu Rhowch ganiad ar 01829 270 i archebu.

I sicrhau bod gofynion Cofid-19 yn cael eu dilyn, bydd rhaid i bawb sy'n ymweld â Groto Siôn Corn a Brecwast gyda Siôn Corn eleni ARCHEBU YMLAEN LLAW

Os gwelwch yn dda peidiwch â chyrraedd ar y diwrnod heb ichi fod wedi archebu ymlaen llaw. Bydd rhaid dangos tystiolaeth eich bod wedi archebu pan gyrhaeddwch.


Bsydd y Groto ar agor ac mae'n rhwym wrth Ganllawiau Cofid-19 Llywodraeth Cymru. Os gwelwch yn dda, ewch i Wefan Bellis' Brothers a safleoedd cyfryngau cymdeithasol i gael y wybodaeth ddiweddddaraf ar y diwrnod yr ydych yn dod. Bydd mesurau cadw pellter a chanllawiau gwisgo mwgwd yn ofynnol ymhob un o'r gweithgareddau uchod.

**Siop Ffarm Bellis Brothers a Chanolfan Arddio Pentref Holt, Wrecsam LL13 9YU**

## WYT TI'N SIARAD CYMRAEG?

**Byddwn yn cynhyrchu fersiwn electronig o'n cylchlythyr Cymraeg, a gellwch gael y ddogfen ar gais neu o'n gwefan. Os hoffech chi gael copi papur, cysylltwch â'n hadran codi arian ar 01978 314292.**

**Cafodd y Cylchlythyr ei gyfieithu yn rhad ac am ddim yn garedig iawn gan Gareth P. Hughes.**



## CROSSWORD CHALLENGE

**Can you complete our crossword in less than an hour?**

### Across

**1** Eyots (5)
**5** Rubbish (5)
**8** Incantation (5)
**10** Russian sleigh (6)
**11** Defence covering (6)
**12** Having the form of a song (5)
**13** Sister of Mary and Lazarus (6)
**14** Resident of e.g. Nairobi (6)
**15** Stage play (5)
**17** Scratched (6)
**19** Plan (6)
**21** Cuban dance (5)
**22** Prolonged lack of food (6)
**23** Professional killer (6)
**24** Locations (5)
**25** Workshop machinery (6)
**27** Pressed (6)
**29** Grecian architectural style (5)
**31** Go back (6)
**32** Beast (6)
**33** Porridge (5)
**34** E.g. Tarka (5)
**35** Is inclined (5)

### Down

**2** Rill (9)
**3** Throw out (5)
**4** Not in any circumstances (Poetical) (4)
**6** Recall past experiences (9)
**7** Sweat room (5)
**8** Mayonnaise (5,8)
**9** Lazy (13)
**16** Allow to enter (5)
**18** Storage building (9)
**20** Home of Elvis (9)
**26** Representative (5)
**28** Oil source (5)
**30** Part of speech (4)

**Across:** 1 Isles, 5 Trash, 8 Spell, 10 Troika, 11 Armour, 12 Lyric, 13 Martha, 14 Kenyan, 15 Drama, 17 Clawed, 19 Design, 21 Rumba, 22 Starve, 23 Iceman, 24 Sites, 25 Lathes, 27 Ironed, 29 Ionic, 31 Return, 32 Animal, 33 Gruel, 34 Otter, 35 Tends.
**Down:** 2 Streamlet, 3 Evict, 4 Ne'er, 6 Reminisce, 7 Sauna, 8 Salad dressing, 9 Lackadaisical, 16 Admit, 18 Warehouse, 20 Graceland, 26 Agent, 28 Olive, 30 Noun.


# Enillwch hyd at £2,500

*Cefnogwch ofal cleifion – ymunwch â'n Lotri wythnosol*

begambleaware.org

NIGHTINGALE HOUSE LOTTERY

**01978 313134**
**nightingalehouse.co.uk/lottery**

# RAFFL ANHYGOEL Y NADOLIG



17.12.20

## GWOBRAU £5M, £3M, A £2M I'W HENNILL

Nightingale House Hospice
Hospis Tŷ'r Eos

**01978 313134**
**NIGHTINGALEHOUSE.CO.UK**

Nightingale House Lottery Ltd. Company Number 3139714. Nightingale House Promotions Ltd. Company Number 2837909. Nightingale House Hospice. Registered Charity Number: 1035600 (Registered in England and Wales)